Atodiad 5

Grŵp Monitro Safonau Ysgolion (GMSY)
Cylch Gorchwyl

Egwyddorion Allweddol
Mae'r GMSY yn is-grŵp i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac mae'n gyfrifol am gefnogi a herio ysgolion.

Sefydlwyd GMSY yn 2007 i sicrhau bod ysgolion sy'n tanberfformio yn cael eu herio'n frwd gan yr Awdurdod Lleol ond eu bod hefyd yn cael eu cefnogi i wneud cynnydd a gwella canlyniadau i'w dysgwyr. Mae'r grŵp hefyd yn rhoi cyfle i aelodau etholedig atgyfnerthu eu gwybodaeth am lefelau perfformiad ysgolion yn yr awdurdod ac yn gweithio'n ddiwyd ochr yn ochr â swyddogion i ddarparu'r her a'r gefnogaeth honno.

Mae'r cyfarfod yn broses ddwy ffordd bwysig a bydd yn ceisio creu trafodaeth ystyriol rhwng aelodau etholedig, swyddogion, penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr. Caiff ysgolion eu galw i'r GMSY ar sail rhaglen dreigl.

Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fisol ac yn cael eu cadeirio gan yr Aelod Arweiniol dros Addysg a Gwasanaethau Plant, mae'n bosibl y caiff rhai cyfarfodydd eu cynnal mewn ysgolion.

O 2019 ymlaen mae ysgolion Sir Ddinbych yn wynebu newidiadau digyffelyb sy'n cael eu llywio gan fentrau addysg cenedlaethol a heriau cyllidebol sylweddol. I gefnogi dealltwriaeth aelodau, bydd GMSY yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd yn 2019-20 gan wneud lle i ddeialog ddwy ffordd fel bod aelodau'n cael gwell dealltwriaeth o'r newidiadau sy'n wynebu ysgolion a galluogi ysgolion i rannu heriau wrth weithredu newid.

Caiff pob ysgol uwchradd ei gwahodd i fynychu GMSY yn ystod 2019. Bydd amryw o ffactorau yn dylanwadu ar amseriad eu gwahoddiad gan gynnwys:
Bydd aelodau'r GMSY yn:

- enwebu dau gynrychiolydd ar gyfer GMSY o bob pwyllgor craffu
- gwahodd aelod(au) etholedig lleol ar gyfer pob ysgol
- llunio amserlen ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion gyda swyddogion yn flynyddol
- gwahodd ysgolion i fynychu sesiwn nesaf y GMSY (4 wythnos cyn y cyfarfod). Bydd hyn yn cynnwys gwahoddiad personol i'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr.
- derbyn diweddariad 30 munud gan swyddogion am berfformiad a phroblemau presennol mewn ysgolion.
- derbyn proffil dosbarthiad ysgol gan GwE bythefnos cyn y cyfarfod;
- ymgyfarwyddo â'r data a'r gwaith papur perthnasol
- gofyn cwestiynau yn sensitif ac ymgysylltu mewn trafodaeth gyda'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr ynglŷn â'r data a'r wybodaeth am yr ysgol.

Bydd swyddogion yn:

- darparu’r holl gefnogaeth weinyddol i GMSY.
- darparu hyfforddiant a chefnogaeth i aelodau.
- hysbysu GwE o’r ysgolion sy’n disgwyl mynychu’r sesiwn GMSY nesaf (tymor cyn y cyfarfod).
- bydd swyddogion yn cofnodi camau gweithredu / materion a godwyd gan ysgolion yn eu cyflwyniadau sy’n gofyn i’r Awdurdod Lleol neu GwE weithredu arnynt.
- darparu diweddariad 30 munud am sefyllfa bresennol ysgolion yr ALl i aelodau.
- darparu data perfformiad ysgolion i aelodau.

Bydd GwE yn:

- darparu proffil dosbarthiad ysgol i aelodau’r GMSY bythefnos cyn cyfarfod y GMSY.
- sicrhau bod Ymgynghorydd Cefnogi a Gwella GwE yn dod gyda'r ysgol sy'n bresennol.

Bydd ysgolion yn:

- sicrhau ei fod yn cael ei gynrychioli gan y pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr.
- gall ysgolion wneud cyflwyniad os ydynt yn dymuno.
- gwesteio cyfarfodydd a gynhelir yn yr ysgolion.

Aelodaeth y Grŵp:

Yr Aelod Arweiniol dros Addysg a Gwasanaethau Plant
6 aelod o’r Pwyllgorau Craffu
Aelod(au) etholedig lleol
Prif Reolwyr Addysg a Gwasanaethau Plant
Rheolwr Busnes, Addysg a Gwasanaethau Plant
Ymgynghorwyr Cefnogi a Gwella GwE
Rheolwr Busnes a Pherfformiad,